



**Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cyngor Sir y Fflint**

**Ysgol Llanfynydd**

**Asesiad Effaith yr Iaith Gymraeg a Chydraddoldeb**

**Hydref 2015**

# Asesiad Effaith yr Iaith Gymraeg a Chydraddoldeb

## Crynodeb

### 1. Enw'r Cynnig/polisi:

Mae Cyngor Sir y Fflint yn dymuno cael barn partiön â diddordeb ynghylch y cynnig i gau Ysgol Llanfynydd o 31 Awst, 2016 gyda'r disgyblion presennol yn trosglwyddo i ysgolion eraill yn yr ardal leol, yn amodol ar ddewis y rhieni.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi gwybodaeth y dylai ymgynghoreion ystyried i gymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori. Mae'r broses yn dilyn canllawiau rheoleiddio fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2013.

Mae'r cyfnod ymgynghori ffurfiol yn dechrau dydd Mercher, 21 Hydref 2015 ac yn gorffen dydd Mercher, 2 Rhagfyr 2015.

Y cynnig yw cau Ysgol Llanfynydd (Ysgol Gymunedol, cyfrwng Saesneg) o 31 Awst 2016, gyda disgyblion yn trosglwyddo i'r rhwydwaith lleol o ysgolion yn amodol ar ddewis y rhieni.

### 2. Cyfarwyddiaeth/Adran:

Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid

### 3. Swyddog Arweiniol:

Ian Budd, Prif Swyddog - Addysg ac Ieuenctid

### 4. Prif Nodau/dibenion/canlyniadau'r polisi:

Y cynnig yw cau Ysgol Llanfynydd (Ysgol Gymunedol, cyfrwng Saesneg) o 31 Awst 2016, gyda disgyblion yn trosglwyddo i'r rhwydwaith lleol o ysgolion yn amodol ar ddewis y rhieni.

Mae'r cynnig yn cael ei roi gerbron ar sail y meini prawf a osodwyd yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor, sef:-

- Lleoedd heb eu llenwi ar draws y portffolio ysgolion cynradd - Ysgol Llanfynydd yn Ionawr 2015 (CYBLD) gyda 42 o ddisgyblion llawn amser gyda lleoedd heb eu llenwi yn 47.5%. O fis Medi 2015 roedd poblogaeth yr ysgol yn cynnwys 34 o ddisgyblion llawn amser gyda lleoedd heb eu llenwi yn 57.5%.
- Meini prawf adnoddau lleihaol (h.y. ysgolion a gefnogir gan ddisgyblion nad ydynt o'u cymuned leol a/neu niferoedd bach o fewn y gymuned yn codi pryder ynghylch cynaliadwyedd o fewn portffolio'r ysgol); 44% o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Llanfynydd nad yw eu hysgol agosaf, a
- Meini Prawf Ysgolion Bach – mae poblogaeth a chynhwysedd Ysgol Llanfynydd yn is na dynodiad cenedlaethol o ysgol fach, ar ben hynny nid yw niferoedd ysgolion yn bodloni gofynion sylfaenol o fodolau ysgolion cynradd fel y nodir yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor.

### 5. Ydi cyflogeion / defnyddwyr gwasanaeth / y cyhoedd wedi ymgysylltu/ymgynghori â nhw ar newidiadau arfaethedig: DO / NADDO

Naddo

Cynhelir digwyddiad ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc gydag aelodau o Gyngor Ysgol Llanfynydd. Bydd hyn yn cael ei hwyluso gan swyddogion o Gyngor Sir y Fflint a bydd eu rolau yn cynnwys ymgysylltu ac ymgynghori wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae gan blant a phobl ifanc hefyd y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad gan ddefnyddio'r fersiwn plant a phobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori. Bydd yr ysgolion hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig yn cael y wybodaeth ymgynghori trwy eu Cyngor Ysgol.

Cynhelir digwyddiad ymgynghori hefyd i rieni / gofalwyr o Ysgol Llanfynydd. Swyddogion o Gyngor Sir y Fflint a fydd yn gyfrifol am hyn. Bydd rhieni / gofalwyr yn cael y cyfle i drafod y cynnig gyda Swyddogion.

Bydd ymgynghori a rhannu'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb â Grŵp Sicrwydd Ansawdd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint yn cael ei gwblhau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys Swyddogion y Cyngor ac aelodau'r cyhoedd o'r gymuned o nodweddion a ddiogelir a bydd yn ystyried yr effeithiau a nodwyd gan roi adborth ar unrhyw ffordd posibl i gyfyngu ar yr effaith negyddol neu hyrwyddo effaith positif ar y Gymraeg a / neu grwpiau a warchodir. Bydd yr asesiad hwn yn broses organig drwy gydol y cyfnod ymgynghori.

## **6. Beth sy'n cael ei wneud i gyfyngu ar unrhyw effaith negyddol neu hybu effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg a/neu grwpiau gwarchoddedig (Gweler adran 2):**

Mae Ysgol Llanfynydd wedi ei lleoli ym mhentref Llanfynydd. Mae Ysgol Llanfynydd yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion rhwng 3-11 mlwydd oed. Mae'n Gategori 2 ar gyfer safonau ym model categoreiddio Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Mae'r dewis o ysgolion eraill gerllaw wedi'u nodi fel ysgolion amgen a allai o bosibl gymryd disgyblion o Ysgol Llanfynydd pe bai'n cau, fel a ganlyn:-

Mae Ysgol Parc y Llan, Treuddyn wedi ei lleoli ym mhentref Treuddyn, tua 2.11 milltir o Ysgol Llanfynydd. Mae Ysgol Parc y Llan yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion rhwng 3-11 mlwydd oed. Mae'n Gategori 1 ar gyfer safonau ym model categoreiddio Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Mae Ysgol Gynradd Abermorddu wedi ei lleoli ym mhentref Abermorddu, tua 2.12 milltir o Ysgol Llanfynydd. Mae Ysgol Gynradd Abermorddu yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion rhwng 3-11 mlwydd oed. Mae'n Gategori 3 ar gyfer safonau ym model categoreiddio Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Mae Ysgol Estyn, yr Hob wedi ei lleoli ym mhentref yr Hob, tua 3.05 milltir o Ysgol Llanfynydd. Mae Ysgol Estyn yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion rhwng 3-11 oed. Mae'n Gategori 3 ar gyfer safonau ym model categoreiddio Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Mae Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wrecsam wedi ei lleoli ym mhentref Bwlchgwyn, tua 4.11 milltir o Ysgol Llanfynydd. Mae Ysgol Bwlchgwyn yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 3-11 oed. Mae'n Gategori 3 ar gyfer safonau ym model categoreiddio Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Mae Ysgol Llanfynydd a'r ysgolion cynradd lleol uchod sy'n debygol o dderbyn disgyblion Ysgol Llanfynydd pe bai'n cau wedi eu dosbarthu fel bod yn ysgolion cyfrwng Saesneg yn seiliedig yn y gymuned, felly, nid oes unrhyw effeithiau negyddol amlwg ar yr Iaith Gymraeg.

Yn amodol ar ddewis y rhieni, mae opsiwn i ddisgyblion o Ysgol Llanfynydd i gael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion eraill yn Sir y Fflint pe bai'r cynnig i gau'r ysgol yn mynd yn ei flaen. Ysgol Terrig, Treuddyn yw'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg agosaf at Ysgol Llanfynydd.

### **7. Sut y bydd y cynigion yn helpu i hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a hybu cysylltiadau da?**


Dylai ysgolion cynradd lleol o fewn yr ardal leol (Ysgol Parc y Llan, Treuddyn, Abermorddu, Ysgol Estyn, yr Hôb, ac Ysgol Bwlchgwyn – Wrecsam) y byddai disgyblion o bosibl yn eu dewis pe bai Ysgol Llanfynydd yn cau sydd â datganiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hunain. Bydd gan bob ysgol eu hethos eu hunain o gwmpas hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a hyrwyddo cysylltiadau da.

### **8. A oes cynllun gweithredu yn ei le?**

Oes

**Enw:** Ian Budd

**Llofnod:**



**Teitl Swydd:** Prif Swyddog - Addysg ac Ieuenctid

## Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg

Nod yr asesiad o effaith ar gydraddoldeb a'r Gymraeg yw sicrhau bod polisïau yn helpu i hyrwyddo cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg. Mae'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn cyfrannu at lunio polisïau effeithiol trwy roi cyfle i leihau risg a gwneud y mwyaf o fanteision polisi, ac felly sicrhau bod gennym y polisi gorau posibl yn ei le. Mae hefyd yn ein helpu i gyflawni ein gofynion o dan ddyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. **Trwy gydol y ddogfen hon defnyddiwn y gair 'polisi' i gyfeirio at yr hyn yr ydym yn ei asesu. Yn y cyd-destun hwn, mae'r term yn cynnwys y gwahanol bethau a wnawn, gan gynnwys strategaethau, swyddogaethau, gweithdrefnau, arferion, penderfyniadau, cynlluniau a phrosiectau.**

Dylai pob Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ystyried effaith bosibl polisïau sy'n ymwneud â holl feysydd cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg gan gynnwys hawliau dynol a materion economaidd gymdeithasol. Wrth gynnal asesiad, dylech ystyried canlyniadau negyddol a chadarnhaol eich cynigion. Bydd ein hymagwedd at Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn ein helpu i gryfhau ein gwaith i hyrwyddo cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg. Bydd hefyd yn helpu i nodi ac i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau gwahaniaethol posibl cyn cyflwyno polisi a lleihau'r risg o heriau cyfreithiol posibl. Wrth gynnal asesiad, dylech ystyried canlyniadau negyddol a chadarnhaol eich cynigion.

Os bydd prosiect wedi ei gynllunio ar gyfer grŵp penodol, bydd angen i chi hefyd feddwl am beth yw'r effeithiau posibl y gall ei gael ar feysydd eraill o gydraddoldeb. Mae rhagor o gyngor, arweiniad a hyfforddiant i'w gael a dylid ei ddefnyddio wrth gynnal asesiadau.

### 1. Casglu Data a Thystiolaeth

<p><b>Pa dystiolaeth ee data, ymchwil, canlyniadau'r ymgysylltu ac ymgynghori yr ydych wedi'i ddefnyddio i ystyried sut y gallai'r polisi hwn effeithio ar:-</b></p> <p><b>i) bobl â nodweddion gwarchoddedig</b></p> <p><b>ii) cyfleoedd i unigolion/cymunedau i ddefnyddio'r Gymraeg</b></p> <p>Rhowch gysylltiad i unrhyw ddogfennau perthnasol. Disgrifiwch pwy fuoch chi'n ymwneud â nhw a'r canlyniadau? <b>(Mae'n ofyniad statudol i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig).</b></p>	<p>I ddadansoddi tystiolaeth i ystyried yr effeithiau ar bobl â nodweddion gwarchoddedig, mae Lefel Disgyblion yn y Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol neu ddata CYBLD (Ionawr 2015) ar gyfer Ysgol Llanfynydd wedi'u dadansoddi.</p> <p>Bydd ymgynghori a rhannu o'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb gyda Grŵp Sicrhau Ansawdd Asesu Effaith Cydraddoldeb Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint yn cael ei gwblhau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys Swyddogion y Cyngor ac aelodau'r cyhoedd o'r gymuned â nodweddion gwarchoddedig.</p> <p>Mae data disgyblion gan y Gwasanaethau Cynhwysiad hefyd wedi cael eu dadansoddi. Nid yw'r setiau data yn cynnwys disgyblion meithrin.</p>
<p><b>Pa ymchwil, data neu ymgynghori ychwanegol sydd ei angen i lenwi unrhyw fylchau o ran deall effeithiau'r polisi?</b></p>	<p>Adroddiadau arolygu ESTYN</p>

## 2 Aseiad o effaith a chryfhau polisi

Mae'r adran hon yn gofyn i chi asesu effaith y polisi ar bob un o'r grwpiau a ddiogelir a'r iaith Gymraeg. **Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael, nodwch effeithiau'r polisi hwn ar y grwpiau canlynol**

Nodwch yr effaith						
	+ effaith gadarnh aol Y/N	-effaith negyddol Y/N	Dim effaith Y/N	Sut yr effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol	Sut y gallwch chi hyrwyddo effaith positif <sup>1</sup>
<b>Oedran</b> <i>(ar draws y sbectrwm oedran cyfan)</i>	Y	Y	N	<p>Mae data CYBLD Ionawr 2015 yn dweud wrthym fod y 42 o ddisgyblion amser llawn (heb gynnwys y Blynyddoedd Cynnar a Meithrin) yn mynychu Ysgol Llanfynydd a bod y nifer canlynol o ddisgyblion o fewn yr ystodau oedran canlynol:-</p> <p>Blynyddoedd Cynnar (tua 3 oed) = 1</p> <p>Meithrin (oddeutu 4 oed) = 4</p> <p>Derbyn (oddeutu 5 oed) = 5</p> <p>Blwyddyn 1 (tua 6 oed) = 4</p> <p>Blwyddyn 2 (tua 7 oed) = 5</p> <p>Blwyddyn 3 (tua 8 oed) = 4</p> <p>Blwyddyn 4 (tua 9 oed) = 7</p> <p>Blwyddyn 5 (tua 10 oed) = 9</p> <p>Blwyddyn 6 (tua 11 oed) = 8</p>	Mae'n ddyletswydd statudol ar bob Awdurdod Lleol i gynnig addysg lawn amser i bob plentyn 5-16 oed.	<p>Bydd disgyblion ar draws yr ystod oedran gwahanol yn cael cynnig darpariaeth Ysgol Gynradd amgen a chefnogaeth pontio.</p> <p>Mae'r ddarpariaeth amgen wedi ei adnabod fel Ysgol Parc Y Llan – Treuddyn, Ysgol Abermorddu, Ysgol Estyn - Yr Hôb, ac Ysgol Gynradd Bwlchgwyn, Wreccsam.</p>

<sup>1</sup> Pa fesurau y mae'r polisi hwn yn ei gynnwys i helpu i hyrwyddo cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, diddymu gwahaniaethu a hyrwyddo perthnasau da?

	<b>+ effaith gadarnh aol</b> Y/N	<b>-effaith negyddol</b> Y/N	<b>Dim effaith</b> Y/N	<b>Sut yr effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?</b>	<b>Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol</b>	<b>Sut y gallwch chi hyrwyddo effaith bositif<sup>2</sup></b>
<b>Anabledd</b>	Y	-	Y	<p>Mae CYBLD Ionawr 2015 yn cadarnhau bod llai na 10* o ddisgyblion yn Ysgol Llanfynydd sydd â Datganiad o Anghenion Arbennig.</p> <p>Yn ogystal, mae llai na 10* o ddisgyblion heb ddatganiad o addysg arbennig ond sy'n derbyn rhywfaint o gymorth ar hyn o bryd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).</p> <p>* Mae'r set o ddata wedi'i osod ar lai na 10 gan y gallai hyn arwain at adnabod disgyblion unigol oherwydd niferoedd isel o fewn y garfan cysylltiedig.</p>	<p>Mae gan Wasanaeth Cynhwysiant y Cyngor nifer o wasanaethau cydberthynol arbenigol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag amrywiaeth o anghenion dysgu ychwanegol. Byddant yn cynnwys y canlynol: Gwasanaeth Seicoleg Addysg, Pobl Ifanc, y Gwasanaeth Cynghori, y Gwasanaeth Synhwyrdd, Saesneg fel Iaith Ychwanegol / Gwasanaeth Sipsiwn-Teithwyr, Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, Gwasanaeth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, Gwasanaeth Lles Addysg, Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad, Addysg Heblaw Yn Yr Ysgol a Gwasanaeth Cyflwr y Sbectrwm Awtistiaeth.</p> <p>Maent yn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd yn unol â Chod Ymarfer AAA Cymru (2002) ac wedi ymrwymo i ddatblygu polisiau ac arferion sy'n sicrhau cyfle cyfartal addysgol a mynediad, ynghyd â diogelu disgyblion diamddiffyn. Mae yna hefyd ffocws clir ar godi cyflawniad pob dysgwr a chynyddu cyfranogiad yn eu hysgolion a'u cymunedau lleol.</p> <p>Mae cefnogaeth drwy Wasanaeth Cynhwysiant y Cyngor ar gael i blant a phobl ifanc o fewn ei holl sefyllfa addysgol, hy Ysgolion Cynradd ac Uwchradd, Ysgolion Arbenigol a'r Portffolio Unedau Cyfeirio Disgyblion.</p> <p>Mae Gwasanaethau Cynhwysiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam hefyd yn darparu gwasanaethau tebyg ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.</p>	<p>Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant yn cael ei ddarparu o fewn yr holl Ysgolion Cynradd ar draws y sir.</p> <p>Mae'r Ysgolion Cynradd y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yn gallu darparu ar gyfer disgyblion yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.</p> <p>Bydd y Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i leihau aflonyddwch i bob disgybl gan roi ystyriaeth benodol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.</p> <p>Byddai unrhyw ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n derbyn cymorth ychwanegol ar hyn o bryd yn cael ei ailadrodd yn eu hamgylchedd dysgu newydd.</p>

<sup>2</sup> Pa fesurau y mae'r polisi hwn yn ei gynnwys i helpu i hyrwyddo cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, diddymu gwahaniaethu a hyrwyddo perthnasau da?

	<b>+ effaith gadarnh aol</b> Y/N	<b>-effaith negyddol</b> Y/N	<b>Dim effaith</b> Y/N	<b>Sut yr effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?</b>	<b>Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol</b>	<b>Sut y gallwch chi hyrwyddo effaith positif*</b>
<b>Newid Rhyw (NRh)</b>	N	N	Y	Nid oedd data CYBLD Ionawr 2015 yn cynnwys data ar y nodwedd warchoddedig hon.	Amh.	Mae Cyngor Sir y Fflint yn aelod o Raglen Cefnogwyr Addysg Stonewall. Mae pob ysgol yn cael cynnig un lle ar Stonewall Train sef Cwrs Hyfforddi a fydd yn rhoi'r arfau, hyder a thechneg i gyfranogwyr i hyfforddi staff eraill ar fynd i'r afael â bwlio homoffobig.
<b>Priodas a phartneriaeth sifil (PaPhS)</b>	N	N	Y	Nid oedd data CYBLD Ionawr 2015 yn cynnwys data ar y nodwedd warchoddedig hon.  Yn ôl y gyfraith ni all disgyblion sy'n iau na 16 oed briodi neu fynd i mewn i bartneriaeth sifil; o dan 18 oed mae'n ofynnol cael caniatâd rhieni, felly ni fyddai'r nodwedd warchoddedig yn berthnasol.	Amh.	Amh.
<b>Beichiogrwydd a mamolaeth (BaM)</b>	N	N	Y	Nid oedd data CYBLD Ionawr 2015 yn cynnwys data ar y nodwedd warchoddedig hon.	Amh.	Amh.



<b>Hil</b>	N	N	Y	<p>Mae data CYBLD Ionawr 2015 yn cadarnhau bod 100% o ddisgyblion yn Ysgol Llanfynydd yn Wyn-Prydeinig.</p> <p>Mae'r data o CYBLD Ionawr yn dweud wrthym nad oes unrhyw ddisgyblion o Ysgol Llanfynydd sy'n cael cymorth ar gyfer Saesneg fel Iaith Ychwanegol.</p>	<p>Mae Cyngor Sir y Fflint yn darparu cymorth i blant nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf drwy'r tîm 'Saesneg fel Iaith Ychwanegol' wedi'i leoli yn y Gwasanaeth Cynhwysiad.</p>	<p>Bydd disgyblion ar draws yr ystod o gefndiroedd ethnig gwahanol yn cael cynnig darpariaeth Ysgol Gynradd amgen a chefnogaeth pontio.</p>
	<b>+ effaith gadarnh aol</b> Y/N	<b>-effaith negyddol</b> Y/N	<b>Dim effaith</b> Y/N	<b>Sut yr effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?</b>	<b>Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol</b>	<b>Sut y gallwch chi hyrwyddo effaith positif*</b>
<b>Crefydd / Cred</b>	N	N	Y	<p>Nid oedd data CYBLD Ionawr 2015 yn cynnwys data ar y nodwedd warchoddedig hon.</p> <p>Nid yw Ysgol Llanfynydd yn ysgol enwadol gysylltiedig.</p>	<p>Mae gan Gyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddyletswydd statudol i fonitro darpariaeth a chyflawniad disgyblion ac ysgolion sy'n ymwneud â'r maes llafur Addysg Grefyddol a gytunwyd arno.</p>	<p>Mae ysgolion Cynradd enwadol ac anenwadol i rai 3 -11 oed ar gael yn Sir y Fflint a Wrecsam pe bai disgyblion sy'n cael eu gwasgaru yn dymuno cael mynediad i addysg ffydd pe bai Ysgol Llanfynydd yn cau.</p>
<b>Rhyw</b> (dynion, merched, bechgyn, genethod)	N	N	Y	<p>Mae data CYBLD Ionawr 2015 yn nodi bod gan Ysgol Llanfynydd 42 o ddisgyblion llawn amser (heb gynnwys y Blynyddoedd Cynnar a Meithrin), a bod</p> <p>26 (61.9%) = yn fechgyn</p> <p>16 (38.09%) = yn enethod</p>	<p>Caiff perfformiad ei fonitro yn ôl rhyw ar lefel ysgol a chymerir camau gweithredu drwy'r Cynllun Gweithredu Ysgolion i ymdrin ag unrhyw fylchau, gan gyfeirio cefnogaeth i'r meysydd pwnc gofynnol.</p>	<p>Caiff perfformiad ei fonitro yn ôl rhyw ar gyfer yr Ysgolion Cynradd y bydd disgyblion yn cael eu gwasgaru iddynt.</p>

<b>Cyfeiriad edd Rhywiol (CRh)</b>	N	N	Y	Nid oedd data CYBLD Ionawr 2015 yn cynnwys data ar y nodwedd warchoddedig hon.	Os bydd unrhyw ddisgyblion o Ysgol Llanfynydd gyda'r nodwedd warchoddedig hon, byddent yn cael eu darparu gyda chefnogaeth fugeiliol priodol o'r ysgolion eraill cyfagos neu ysgol arall a ddewiswyd trwy ddewis rhieni.	Mae'r Ysgolion Cynradd y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yn gallu darparu ar gyfer disgyblion yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.  Mae Cyngor Sir y Fflint yn aelod o Raglen Cefnogwyr Addysg Stonewall. Mae pob ysgol yn cael cynnig un lle ar Stonewall Train sef Cwrs Hyfforddi a fydd yn rhoi'r arfau, hyder a thechneg i gyfranogwyr i hyfforddi staff eraill ar fynd i'r afael â bwlio homoffobig.
--	---	---	---	--	--	---

	<b>+ effaith gadar nhaol Y/N</b>	<b>-effaith negydd ol Y/N</b>	<b>Dim effaith Y/N</b>	<b>Sut yr effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?</b>	<b>Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol</b>	<b>Sut y gallwch chi hyrwyddo effaith positif*</b>
<b>laith Gymraeg</b>	Y	N	N	Mae Ysgol Llanfynydd wedi eu diffinio fel Cyfrwng Saesneg (CS)	Mae gwasanaeth rhanbarthol GwE yn monitro pob ysgol yn rheolaidd ac mae'r ysgolion hefyd yn	Mae yna opsiwn i rieni yn Sir y Fflint ac ardal Wrecsam ddewis darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn y sectorau Cynradd ac Uwchradd. Mae Ysgol Gynradd Cyfrwng

					derbyn arolygiadau trwy Estyn.	Cymraeg Ysgol Terrig, Treuddyn wedi'i leoli 2.11 milltir o Ysgol Llanfynydd.
Effeithiau <b>Erail</b> ychwanegol (fel hawliau dynol, tlodi, pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig)	N	N	Y	<p>Mae'r grwpiau cymunedol canlynol yn defnyddio Ysgol Llanfynydd:-</p> <p>Grŵp plant bach a babannod (unwaith y mis sy'n dechrau fis Medi 2015)</p> <p>Sefydliad y Merched (unwaith y mis)</p> <p>Cyfeillion Llanfynydd (unwaith y mis)</p> <p>Amser Rhythm (unwaith yr wythnos yn cychwyn Medi 2015)</p> <p>Clwb Ffilmiau Cymunedol (unwaith y mis - cychwyn Medi 2015)</p> <p>Clwb Llyfrau Cymunedol (unwaith y mis - cychwyn Medi 2015)</p> <p>Mae 11.9% o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn Ysgol Llanfynydd. Mae data mylocalschool.com yn nodi canran o 19.3% dros gyfartaledd o 3 blynedd yn 2014.</p> <p>Mae Ysgol Llanfynydd yn cael ei ystyried i fod mewn cymuned wledig, os gweithredir ar y cynnig i gau Ysgol Llanfynydd byddai'r gymuned o bosib yn gweld effaith ar y gymuned leol. Mae asesiad effaith cymunedol wedi ei gwblhau a gellir ei weld yn y ddolen ganlynol:-</p>	Nid oes cynlluniau ar gyfer y safle yn Ysgol Llanfynydd y gallai'r Cyngor ystyried trosglwyddo'r ased neu ran o'r adeilad i grŵp cymunedol cyfansoddiadol lle gallant ddangos bod yr angen a'r gallu i gymryd drosodd y gwaith o redeg y safle.	Fel rhan o'r ymarfer ymgynghori, bydd gwaith ychwanegol yn cael ei wneud gyda'r grŵp hwn o ddisgyblion a rhieni/gofalwyr i liniaru unrhyw effaith bosibl ac i sicrhau bod cymuned Llanfynydd yn parhau i ffynnu.

				<a href="http://www.flintshire.gov.uk/schoolmodernisation">www.flintshire.gov.uk/schoolmodernisation</a>		
--	--	--	--	--	--	--

<b>Os na chymerir unrhyw gamau i ddileu neu liniaru effaith negyddol/andwyol dylech gyfiawnhau y rheswm am hynny</b>	<b>Amh.</b>
--	-------------

#### 4. Caffael

<p><b>A yw'r polisi hwn i fod i gael ei wneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan gontractwyr? Os ydi, nodwch pa gamau y byddwch yn eu cymryd i gynnwys y gofyniad i ystyried y dyletswyddau cydraddoldeb ym mhob cam o'r broses gaffael.</b></p> <p>Bydd angen i chi feddwl am:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• dendro a manylebau</li> <li>• y broses ddyfarnu</li> <li>• cymalau contract</li> <li>• mesurau perfformiad, a</li> <li>• mesurau monitro a pherfformiad.</li> </ul>	Ddim yn berthnasol
---	--------------------

## 5. Monitro, Gwerthuso ac Adolygu

<p><b>Sut y byddwch yn monitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi newydd?</b></p> <p>Gallai hyn gynnwys addasiadau neu estyniadau i systemau monitro cyfredol, amserlenni perthnasol ac ymrwymiad i gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb unwaith y bydd y polisi wedi bod ar waith am flwyddyn. Rhestrwch fanylion o unrhyw waith dilynol a wneir yng nghyswllt y polisi (e.e. arolwg, proses monitro penodol ac ati).</p>	<p>Adolygiad o wybodaeth arolwg CYBLD ar gyfer safleoedd ysgol ar wasgar</p> <p>Ionawr 2016</p> <p>Ionawr 2017</p> <p>Adolygu gyda Gwasanaethau Cynhwysiad o'r effeithiau ar ddisgyblion sy'n symud o Ysgol Llanfynydd i Ysgolion Cynradd amgen eraill gerllaw.</p> <p>Perfformiad adolygu sy'n seiliedig ar ddangosyddion cenedlaethol, gyda GwE a thrwy Estyn.</p>
<p><b>Rhowch fanylion am sut y bydd canlyniadau'r asesiad effaith yn cael ei gyhoeddi, gan gynnwys canlyniadau ymgynghori a gwybodaeth monitro os yw'n berthnasol.</b></p> <p>Bydd crynodebau o ganlyniadau pob asesiad effaith yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Gallech hefyd eu cyhoeddi mewn cyfryngau perthnasol eraill.</p>	<p>Cyhoeddi ar wefan Cyngor Sir y Fflint</p> <p>Dolen i wefan Cyngor Sir y Fflint a ddarparwyd i'r ysgol</p>

## 6. Cynllun Gweithredu

Mae'r isod yn rhoi cyfle i ddatgan sut y bydd unrhyw effaith negyddol yn cael ei liniaru. Mae hefyd yn caniatáu i chi restru sut y byddwch yn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y polisi. Edrychwch yn ôl drwy gamau 1-7 o'r Aseiad o Effaith ar Gydraddoleb a chynnwys unrhyw gamau gweithredu a nodwyd yn y cynllun isod. Sicrhewch bod pob cam gweithredu wedi'u restru gyda dyddiad targed a bennwyd i aelod penodol o staff. **Dylai'r camau hyn gael eu hymgorffori i mewn i gynlluniau Cyfarwyddiaeth a Gwasanaeth.**

Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Erbyn pryd	Cynnydd
Cyhoeddi crynodeb o'r Aseiad o Effaith ar Gydraddoleb <sup>3</sup>	Damian Hughes	Dydd Mercher 21 Hydref 2015	
Rhannu copi o'r Aseiad o Effaith ar Gydraddoleb gyda Gwasanaethau Cynhwysiant Addysg Sir y Fflint cyn cynnal Ymgynghoriad Cyhoeddus	Damian Hughes	Dydd Mercher 21 Hydref 2015	
Cynnal cyfarfodydd ymgynghori gyda rhieni / gofalwyr o Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint / Ysgol Llanfynydd / Ysgol Gymraeg Mornant, Picton.	Ian Budd	Arfaethedig 23 Tachwedd 2015	

---

<sup>3</sup> Bydd angen cyhoeddi crynodebau o aseidiadau lle bydd effaith sylweddol

## 7 – Cymeradwyo

### Cam olaf yr Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb yw cymeradwyo'r ddogfen yn ffurfiol fel bod yn aseiad cyflawn, trwyadl a chadarn


Mae'r polisi wedi cael ei asesu'n llawn mewn perthynas â'i effeithiau posibl ar gydraddoldeb ac mae'r holl bryderon perthnasol wedi derbyn sylw.

(Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb llofnodwch isod ac anfonwch ymlaen at gynrychiolydd y Gyfarwyddiaeth Cydraddoldeb)


### Aelodau tîm yr aseiad

Enw	Teitl Swydd	Sefydliad
Jennie Williams	Swyddog Prosiect	Cyngor Sir y Fflint
Sarah Thomas	Swyddog Prosiect	Cyngor Sir y Fflint

### Gwirio ansawdd: Mae'r ddogfen wedi'i wirio gan:

Enw: Damian Hughes
Teitl Swydd: Uwch Reolwr Cynllunio a Darpariaeth Ysgolion
Cyfarwyddiaeth: Addysg ac Ieuenctid
Dyddiad: Dydd Mercher 21 Hydref 2015
Llofnod: 

### Lefel Cyfarwyddwr (cymeradwyo)

Enw: Ian Budd
Teitl Swydd: Prif Swyddog
Cyfarwyddiaeth: Addysg ac Ieuenctid
Dyddiad: Dydd Mercher 21 Hydref 2015
Llofnod: 

Anfonwch y dogfennau a gwblhawyd i Steph Aldridge, Polisi a Pherfformiad, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. [stephanie.aldridge@flintshire.gov.uk](mailto:stephanie.aldridge@flintshire.gov.uk)